Cenn@d

MEHEFIN 11 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 224

# Drysau agored yng Nghwm Rhondda?

Mae cymoedd y Rhondda yn meddu ar le pwysig yn hanes, gwleidyddiaeth a diwylliant Cymru ac maent yn gartref i bron i 100,000 o bobl heddiw. Ochr yn ochr â'r dirywiad economaidd y maent wedi'i ddioddef yn sgil cau'r pyllau glo, maent hefyd wedi profi dirywiad ysbrydol sylweddol ar draws y traddodiadau ac enwadau Cristnogol. Fodd bynnag, maent yn enwog am eu cymunedau cryf a gwydn – sy'n ymddangos eu bod Bellach yn agor drysau i ffurfiau newydd o weinidogaeth Gristnogol.

### Morwenna



Magwyd Morwenna Thomas yn Nhonypandy yng nghanol cwm Rhondda Fawr, gan adael am gyfnodau o waith ac astudio i ffwrdd. Fel y dywedodd wrth i ni sgwrsio, "Rydw i bob amser wedi teimlo galwad glir i'r gymuned – ac i mi mae hynny'n golygu'r cymunedau hyn."

Yn wyneb gweld capeli ledled y cwm a'r tu hwnt yn cau eu drysau, roedd Cymanfa Bedyddwyr Dwyrain Morgannwg yn awyddus i gefnogi gweinidogaeth genhadol yn yr ardal trwy ddulliau newydd a chreadigol ac fe benodwyd Morwenna i rôl ran-amser fel gweinidog cenhadol ym mis Tachwedd 2022.

"Pan ddechreuais i," eglurodd Morwenna, "roedd caffi talu-fel-y-gallwch yn tyfu'n gyflym yng nghapel y Bedyddwyr Blaenycwm, yn cael ei redeg gan grŵp bach yno. Dechreuais fynd yno i ddod i adnabod pobl o'r gymuned a rhoi help llaw." Mae'r caffi bellach wedi troi'n ofod cynnes tymhorol – ond mae'n ymddangos bod y cysylltiadau y mae'r fenter wedi'u creu wedi bwydo chwilfrydedd yn y gymuned ynghylch gwaith yr eglwys.

Meddai Geraint Davies, ysgrifennydd capel Blaenycwm, "Rydym yn falch fel eglwys o allu cefnogi a bod yn rhan o nifer o fentrau gwahanol yn y gymuned, gan gynnwys y banc bwyd yr ydym wedi ei redeg ers deuddeng mlynedd. Mae'n rhan o Fanc Bwyd y Rhondda sy'n rhedeg gwasanaeth cynhwysfawr ledled y ddau ddyffryn. Rydym yn ffodus bod gennym rota o wirfoddolwyr i'w redeg. Mae wedi bod yn dda i ni fel eglwys gefnogi Morwenna yn ei gwaith fel ein Gweinidog Cenhadol gan ei bod yn ymwneud â sawl un o'r prosiectau hyn."


Fel aeth Morwenna ymlaen i esbonio, "mae llawer o'r hyn rydw i'n ei wneud yn organig iawn – ac yn benagored. Weithiau mae hynny'n arwain at straeon fel y bachan o'r Men's Shed a foelodd ei glustiau pan ddywedais fy mod i'n mynd draw i astudiaeth Feiblaidd Capel Blaenycwm , a gofyn i ddod draw gyda mi – sydd wedi arwain ato'n mynd yno'n rheolaidd bellach! Ac weithiau mae'n fater o fod yn bresennol yng nghanol y gymuned, dod i adnabod pobl, a gwrando arnyn nhw – gan fod yn agored i'r hyn y gall Duw fod yn ei wneud yn eu plith."

### Croeso i'n Coedwig

Ar y bore rydyn ni'n cwrdd â hi, mae Morwenna newydd fod allan yn y goedwig uwchben Treherbert gyda grŵp a gynhelir dan arweiniad 'Croeso i'n Coedwig' / Welcome to Our Woods . Yn fenter gymunedol sy'n cael ei rhedeg gan bobl leol ar gyfer pobl leol, maent yn gweithio i ddefnyddio adnoddau naturiol anhygoel yr ardal i fwydo, cartrefu a chefnogi pobl leol, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf maent wedi dechrau cynnal sesiynau 'presgripsiynu gwyrdd' (neu 'green prescribing') mewn cydweithrediad â gwasanaethau iechyd rhanbarthol.

Mae hyd at 35 o bobl yn dod ynghyd bob wythnos ar gyfer y sesiwn Therapi Coetir y mae Morwenna yn helpu rhedeg, ac mae hi bellach yn cynnal myfyrdod wythnosol fel rhan o'r sesiwn. Roedd myfyrdod y bore hwnnw wedi seilio ar bwnc tân, sydd mewn sawl ffordd yn debyg i weddi.

"Mewn rhai ffyrdd mae fel y profiad o fynd i'r caffi yng nghapel Blaenycwm – dwi'n mynd er mwyn dod i adnabod pobl. Ond mae'n debyg fy mod i'n y sesiynau Woodland Therapy fel eu gwestai. Caplan Bedyddiedig allan yn y gymuned ydw i mewn gwirionedd, am wn i!"






Noddfa

Wrth i'r gwaith yma ddatblygu, roedd yr achos yn Noddfa, Blaenclydach (rhan arall o Gwm Rhondda) yn dod i ben a gwnaethpwyd y penderfyniad anodd i gau'r adeilad. Er ei bod yn byw yn yr union gymuned honno a'i gŵr wedi pregethu yno, nid oedd Morwenna erioed wedi cael cysylltiadau uniongyrchol â'r eglwys cyn iddi gau.

Un diwrnod cyfarfu â gweinidog Bedyddiedig arall ym Mlaenclydach, a dynnodd ei sylw hi at y ffaith ei fod yn rhodd o Dduw ei bod hi'n gallu eistedd mewn caffi am awran ac adnabod bron pawb a ddaeth i mewn ac allan – am ei bod wedi ei magu yn y gymuned honno. "Pam nad wyt ti'n gweld os yw Duw yn agor drysau i chi wneud rhywbeth yn y gymuned hon hefyd?" gofynnodd y gweinidog hwn iddi.

Arweiniodd hyn at gyfres o sgyrsiau yn ystod hydref 2024 a barodd iddi ddarganfod nad oedd adeilad Noddfa wedi'i werthu eto – ac y byddai'r ymddiriedolwyr yn agored iawn i ddal gafael arno i weld a ellid dechrau gwaith newydd yno.

"Roedd yn eithaf anhygoel sut digwyddodd popeth," myfyriodd Morwenna, "ac rydyn ni'n dal i fod yn y dyddiau cynnar o ddirnad beth fyddai'n ddefnydd newydd da o'r adeilad bach yna, sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ei angen ar y gymuned. Gallai fod hyn rywbeth i wneud â cherddoriaeth, neu rywbeth i bobl ifanc, er enghraifft. Mae angen rhagor o sgyrsiau, a gweddi!" Beth bynnag yw'r camau nesaf, mae'n ymddangos bod Duw yn sicr yn agor drysau i bethau newydd wreiddio yng nghymoedd y Rhondda


Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt
**Tudalen 2**

Cofio'r Bardd-ddiwinydd R. S. Thomas
Cynhadledd Fforwm Ffydd, 13 Mai 2025
**Tudalen 3**

O'r byd a'r betws
**Tudalen 5**

# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt

## Hoff Bwnc yn yr Ysgol?



Beth oedd eich hoff bwnc yn yr ysgol, tybed?

Gwnaeth Prifysgol Caerdydd gadarnhau yr wythnos hon ni fydd hi'n bosibl i fyfyrwyr cymryd astudiaethau crefyddol fel gradd o fis Medi 2026 ymlaen.

Pam? Wel, un o'r prif resymau yw'r ffaith nad oes llawer o bobl ifanc yn gwneud cais i astudio crefydd neu ddiwinyddiaeth – ac felly mae pobl yn tybio nad yw'r pwnc yn berthnasol bellach.

Ond, meddyliwn am funud. Rhyfel yn y Dwyrain Canol rhwng Israel a Phalesteina – deall crefyddau dim yn berthnasol? Cysylltiadau rhwng Cristnogaeth y dde eithafol a gwleidyddion yn America – astudiaethau crefyddol dim yn berthnasol? Gwragedd a merched sy'n dioddef trais yn eu herbyn oherwydd dehongliad penodol o'r Beibl – astudio diwinyddiaeth dim yn berthnasol?

Byddwn i'n dadlau bod hi'n amhosibl deall ein byd ni heb ddeall y ffordd y mae crefydd yn siapio ymddygiad pobl. Ac mewn byd ble mae dylanwad deallusrwydd artiffisial yn tyfu o ddydd i ddydd, mae cyfraniadau diwinyddiaeth i gwestiynau moesol ac ethegol o beth mae'n golygu i fod yn fod dynol yn bwysicach byth.

Pam felly nad ydy pobl ifanc yn dod ymlaen i astudio'r pwnc hollbwysig a hynod o ddiddorol hwn?

Mae mwy nag un rheswm am hynny, ond mae rhan o'r broblem yn mynd yn ôl i gyflwr addysg grefyddol yn ein hysgolion ni yma yng Nghymru. Ym mis Ebrill y llynedd, gwnaeth Prifysgol Bangor gyhoeddi adroddiad ar ddarpariaeth Addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) mewn ysgolion yng Nghymru. Dyma enw newydd cwricwlwm Addysg Grefyddol yng Nghymru, ond dydy'r ymchwilwyr ddim wedi darganfod canlyniadau calonogol. I ddyfynnu safle we'r Brifysgol:

> "Roedd canfyddiadau'r ymchwil a gwblhawyd yn taflu goleuni ar nifer o agweddau sy'n peri pryder gwirioneddol. Cynnwys hyn y ffaith fod cyfran sylweddol o'r ymatebwyr yn dweud nad oedd eu sefydliadau yn cynnig addysg am grefydd, gwerthoedd a moeseg i ddisgyblion hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 4; dim ond hyd at Gyfnod Allweddol 3 (sy'n mynd yn groes i fandad cyfreithiol Cymru). Nodwyd diffygion yn yr adnoddau sy'n bod i gynorthwyo addysgu'r cwricwlwm newydd; yn enwedig yn y Gymraeg – gan mai un gwerslyfr Saesneg yn unig sydd ar gael, ac nid oes bwriad cyhoeddi cyfieithiad Cymraeg ohono."[1]

Gwnawn ni fod yn glir am beth mae hynny yn ei olygu. Er bod hynny yn erbyn y gyfraith, nad ydy nifer sylweddol o ysgolion yng Nghymru yn cynnig CGM fel pwnc i'w disgyblion ar ôl blwyddyn 9. Felly, does dim gobaith iddyn nhw cymryd y pwnc ar lefel A – ac wrth gwrs os nad oes disgyblion sy'n astudio astudiaethau crefyddol ar lefel A, mae'n llawer llai tebyg y fyddan nhw gwneud cais i'w hastudio yn y brifysgol.

Ond os nad oes myfyrwyr sy'n astudio astudiaethau crefyddol yn y brifysgol yng Nghymru, o ble ddaw ein hathrawon i'w dysgu yn yr ysgolion? Bydd rhaid iddyn nhw fynd dros y ffin i Loegr i arbenigo mewn astudiaethau crefyddol. A phwy felly sy'n mynd i'w dysgu yn ein hysgolion Cymraeg? Dyma'r cylch cythreulig yn gyflawn – dim athrawon, dim disgyblion, neb yn astudio crefydd, gwerthoedd a moeseg yng Nghymru, ac yn arbennig nid trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ond – arhoswn am funud. Neb yn astudio gwerthoedd yng Nghymru? Tair mil o flynyddoedd ble mae pobl wedi meddwl ac ysgrifennu ac weithiau mynd i ryfel i amddiffyn gwerthoedd i ffurfio cymdeithas – ond nawr rydyn ni'n meddwl ein bod ni'n gallu ymdopi heb wybod hynny? Neb yn astudio moeseg yng Nghymru? Rydyn ni'n mynd i ganiatáu i gwmnïau ddatblygu deallusrwydd artiffisial ac arfau fel dronau sy'n lladd pobl heb feddwl am foeseg? Rydyn ni'n mynd i drafod marw â chymorth heb wybod dim byd am foeseg?

Yn anffodus, fydd neb yn gallu astudio hen Roeg bellach – achos bod gair gyda'r hen Roegiaid am yr agwedd hynny: ὕβρις, hybris. Sef, yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru*, balchder haerllug.

Hyd yn hyn, dydw i ddim wedi sôn am ddiwinyddiaeth na weinidogion. Dwi'n falch i ddweud bydd Coleg y Bedyddwyr Caerdydd yn parhau i ddarparu graddau mewn diwinyddiaeth hyd yn oed os bydd ein perthynas gyda Phrifysgol Caerdydd yn dod i ben. Mae gweinidogion yn meddygon yr enaid, ac fel meddygon y corff, mae rhaid iddyn nhw hyfforddi.

Pan fyddan nhw'n dweud, 'God hates gays,
Pwy fydd ar ôl i nabod y Beibl yn ddigon da i ddweud,
'Duw cariad yw'?
Pan fyddan nhw'n dweud, 'God bless America',
Pwy fydd ar ôl i nabod y Beibl yn ddigon da i ddweud,
'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, plant i Dduw'?
Pan fyddan nhw'n dweud, 'This country must prepare for war.',
Pwy fydd ar ôl i sefyll yn y bwlch, a gweddïo am heddwch, a'n dysgu i garu ein gelynion?
A phan fydd marwolaeth yn syllu yn ein hwyneb,
Pwy fydd ar ôl i eistedd wrth y gwely, a dal ein llaw,
A darllen y drydedd Salm ar hugain?

[1] Cyflwyno adroddiad arwyddocaol yn y Senedd | Bangor University



# Cofio’r Bardd-ddiwinydd R. S. Thomas Cynhadledd Fforwm Ffydd, 13 Mai 2025

Rhyw gymeriad enigmataidd, llawn anghysondebau yw R. S. Thomas i ni’r Cymry. Saesneg, wrth gwrs, oedd cyfrwng ei farddoniaeth, ac fe’i siaradai gydag acen oedd yn ddigon mawreddog i agor drysau unrhyw sefydliad aruchel. Ac eto, yng Nghymru y gwreiddiwyd ei waith ac mi roedd yn fwy angerddol a digyfaddawd na neb ynglŷn â pharhad y Gymraeg.

Rhoddodd Cynhadledd Fforwm Ffydd, a gynhaliwyd yn Seilo, Llandudno, ar Fai 13eg eleni, gyfle i roi o’r neilltu unrhyw anghysur nad oedd R. S. Thomas efallai’n cydymffurfio’n union â’n delwedd o fardd Cymreig, ac yn hytrach, i ailgydio yn ei weledigaeth a’i gelfyddyd. Cafwyd dwy ddarlith hynod gynhwysfawr a chymen gan yr Athro Jason Walford Davies, Cyd-gyfarwyddwr Canolfan Ymchwil R. S. Thomas ym Mhrifysgol Bangor, a amlinellai hanfod y llenor hwn – sef ei statws fel bardd-ddiwinydd. Drwy edrych ar y gyfrol *Between Sky and Sea*, sy’n cyfuno dyfyniadau o’i waith gyda ffotograffau dadlennol Peter Hope Jones, datgelwyd pwysigrwydd y gweledol i’w lên ac fel y gwreiddiwyd ei gerddi mewn ymdeimlad dwfn tuag at gynefin. Yn wir, gellir dweud iddo ymdrin â phob lle a fu’n ysbrydoliaeth iddo fel safle ym mhererindod ei fywyd.



Cynulleidfa’r dydd

Roedd dadansoddiad yr Athro Walford Davies o’r gerdd ‘Nant Gwrtheyrn’ yn agoriad llygaid, wrth iddo ein tywys, fesul llinell, drwy holl gyfoeth amlhaenog y gwaith. Amlygwyd meistrolaeth R. S. Thomas o’i gyfrwng drwy ei gyfuniad dihafal o’r metaffisegol, y gwleidyddol a’r diwylliannol mewn portread grymus o le, iaith, cymuned a chenedl.

Mi roedd R. S. Thomas, meddai’r Athro Walford Davies, yn afradlon ei edifeirwch na allai wau’r un cyfoeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ac eto, fel yr eglurodd yr Athro, mi roedd cystrawen, ystyr ac arwyddocâd yr iaith honno yn treiddio ac yn atseinio drwy holl waith ac ysbrydoldeb y bardd. Braf hefyd, wrth gwrs, oedd derbyn dadansoddiad o waith R. S. Thomas drwy gyfrwng y Gymraeg; rhywbeth byddai’r gŵr ei hun wedi’i gymeradwyo’n wresog!

Eto eleni, cafwyd cynulleidfa deilwng o’r wledd a baratowyd, gyda dros ddeugain, ar draws yr enwadau’n llenwi festri Seilo. Unwaith eto gallwn ymfalchïo yng ngwaith y Fforwm a diolchwn i’r trefnwyr.

Digon yw dweud wrth gloi bod cyflwyniad yr Athro Jason Walford Davies wedi ysgogi pawb oedd yn Seilo eleni i droi drachefn, a chydag awch, at gerddi R. S. Thomas!

*Dr Ruth Richards*



Jason Walford-Davies (yn y canol) gydag Eric Jones a Megan Williams



# Oes o rannu straeon y Beibl â phlant ysgol – cyfweliad â Chris Thomas



Mae Chris Thomas yn aelod yng nghapel Bethesda, Tŷ Du, ger Casnewydd, ac wedi treulio blynyddoedd maith yn rhannu straeon y Beibl mewn ffyrdd creadigol gyda phlant cynradd. Bu cyfle i'w holi am ei gwaith yn ddiweddar. Dyma ddechrau drwy holi am ei thaith ffydd.

**Mae'n hyfryd cwrdd â chi, Chris. Dywedwch ychydig am sut y daethoch chi i'r ffydd Gristnogol.**

Cefais y fraint o gael magwraeth yng nghapel Tirzah y Bedyddwyr ym mhentre Cwm, ger Glyn Ebwy. Ond gallaf gofio'n glir yr amser pan ddaeth y cyfan yn fyw i mi trwy bregethwr a ddefnyddiodd y darlun o geiniog! Mae darn arian yn mynd yn fudr gan ei fod yn cael ei drosglwyddo o berson i berson, ond yna fe all ddod fel newydd trwy fynd yn ôl i'r bathdy. Rywsut, fe siaradodd hynny â mi am wirionedd yr efengyl a chefais fy medyddio yn 11 oed.

**Rydych chi wedi treulio rhan helaeth o'ch bywyd yn rhannu'r ffydd gyda phlant. Sut y digwyddodd hynny?**

Ar ôl byw yn Abertawe am 15 mlynedd, symudodd fy ngŵr a minnau i Rogerstone / y Tŷ Du, ger Casnewydd, ac roedd gennym awydd cryf i fod yn rhan o fywyd yr eglwys. Daethom yn aelodau ym Methesda, Rogerstone, ryw bum mlynedd ar hugain yn ôl. Yn y pen draw, deuthum yn rhan o'r tîm estyn allan a oedd yn canolbwyntio ar waith plant ac ysgolion, ac roedd hynny'n brofiad gwych.

Ond daeth trobwynt pan siaradais â'r pennaeth yn yr ysgol gynradd leol, a oedd wedi cael profiadau gwael gyda phobl o eglwysi yn y gorffennol. A dyna lle y daeth yr hedyn ar gyfer ICE Wales (Initiatives in Christian Education/ Menter Addysg Gristnogol) – corff a allai wneud gwaith Cristnogol mewn ysgolion gyda'r hygrededd a'r strwythurau i weithio'n dda o fewn gofynion y sector addysg.

Cawsom weledigaeth ar gyfer Cymru gyfan hefyd, fel olwyn gyda breichiau yn arwain o'i chanol. Mae wedi bod yn anhygoel gweld y gwaith yn tyfu o'r Tŷ Du i gwmpasu llawer o dde-ddwyrain Cymru erbyn hyn.

**Dywedwch ychydig wrthym beth yw ICE Wales bellach a beth rydych chi'n ei wneud.**

Dechreuodd y cwbl gyda gwasanaethau ysgol, yna clybiau Beibl amser cinio – ac mae wedi tyfu o hynny. Rydym bob amser yn gweithio gydag eglwysi lleol. Rydym yn hyfforddi gwirfoddolwyr o'r eglwysi i arwain y sesiynau yn yr ysgolion. Mae hynny'n bwysig iawn – mae'n Gristnogion lleol yn gweithio gyda'u hysgolion lleol, yn eu gwasanaethu ac yn meithrin perthynas gref gyda nhw.


Dydyn ni ddim yn cael mynd i mewn i ysgolion a phregethu – ond gallwn fynd i gyflwyno straeon o'r Beibl. Felly rydyn ni wedi datblygu gwersi, gweithdai ac wedi defnyddio adnoddau *Cerdded trwy'r Beibl*, sy'n adnabyddus yn rhyngwladol. Nawr gyda'r cwricwlwm Cymraeg newydd a'r thema 'Cynefin', rydym wedi gallu datblygu adnoddau am Mary Jones, Florrie Evans a Robert Jermaine Thomas – gan gysylltu eu bywydau â diwylliant Cymru, y byd, y Beibl a Christnogaeth. Mae'r rhain wedi bod yn boblogaidd iawn! Ac er nad oes gyda ni ryw lawer o waith mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg hyd yn hyn, rydyn ni wrthi'n ceisio recriwtio rhai fydd yn medru gweithio gyda ni yn y Gymraeg.

**Mae'n amlwg eich bod wedi bod wrthi'n ddiwyd. Sut mae hyn wedi eich annog yn eich cerddediad Cristnogol eich hunan?**

Mae cymaint o anogaeth yn dod o fod wrth y gwaith. Yn ddiweddar, er enghraifft, daeth mam-gu ataf yn Tesco a gofyn a oeddwn i wedi bod yn gwneud straeon y Beibl gyda'r plant yn yr ysgol. Roedd ei hŵyr wedi dod adref ac adrodd y stori ddiweddara yn llawn brwdfrydedd. Rydw i wedi bod yn yr ysbyty lleol ac wedi cael meddyg yn troi ataf ac ailadrodd stori Genesis i mi gyda'r arwyddion llaw roedden ni wedi'u dysgu iddi hi pan oedd hi yn yr ysgol. Rwy'n credu bod yr Ysbryd Glân yn cymryd y straeon Beiblaidd hyn, yn eu gosod ym meddyliau plant – ac y bydd yr hadau hynny'n tyfu yn llawnder amser.

*Diolch yn fawr, Chris.*

Beth am gymryd eiliad i weddïo dros waith ICE Wales? Ac os hoffech chi weithio mewn partneriaeth â nhw yn eich ardal leol, gallwch gysylltu â nhw drwy eu gwefan: www.icewales.co.uk




BBC radio cymru

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 15 Mehefin, am 12:00yp**
Dan ofal Parch. Judith Morris,Penrhyncoch. Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru, mewn paratoad ar gyfer cyfarfodydd yr Undeb.

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 15 Mehefin, am 7:30yb a 4:30yp**
Emynau wedu eu dewis gan y Parch. Alan Pickard.

# O’r byd a’r betws

## Dyfodol plentyndod: cefnogaeth a chyfrifoldeb

Bydd pawb sy’n ymddiddori yn yr iaith Gymraeg ac yn y diwylliant byw a chyffrous, yn dathlu gwaith Urdd Gobaith Cymru yn gyffredinol a llwyddiant yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Diolch i bawb a fu’n gysylltiedig gydag Eisteddfod Dur a Môr ym Mharc Margam yn ddiweddar, ac am bob arwydd o hyfforddiant ac ymroddiad a welwyd yno.

Eto, un o ffenomenau ein cyfnod yw clywed am dystiolaeth drasig o drais ymhlith yr ifanc ar draws gwledydd Prydain, a bu llu o erthyglau ar y cyfryngau torfol ac ar y llwyfannau digidol yn cynnig dehongliadau ar y dystiolaeth a gafwyd. Nid amcan yr erthygl hon yw crynhoi’r dadansoddiadau na phwyso a mesur y llu enghreifftiau o drais a cham ymddwyn sy’n peri arswyd i bawb ohonom. Eto, dylem fod, fel pobl ffydd, ac awydd i ddeall yn well ac i gynnig cefnogaeth i’r oedolion proffesiynol sy’n gweithio ym myd addysg ac iechyd ac i’r sawl sy’n cyfrannu i weithgareddau’r ifanc ym Mhrydain. Mae angen i’r eglwysi wrando ar farn yr ifanc ac ar eu rhieni, hyd yn oed os nad oes gennym gyfarfodydd penodol ar gyfer yr ifanc ar hyn o bryd. Mae’n bwysig bod ein gweddïau yn deall y cyd-destunau a bod pwyllgorau dinasyddiaeth ein henwadau yn ymddiddori yn yr hyn sy’n digwydd yn ein hysgolion lleol, yn ein colegau a’n prifysgolion.

Byddwn yn clywed am blant yn cario cyllyll i fewn i’r ysgol, a bod yna athrawon sy’n gorfod gweithredu fel plismyn gan geisio lleihau’r bygythiadau hyn. Hefyd, clywn am ddisgyblion yn defnyddio cyffuriau ac yn eu gwerthu ar dir yr ysgol. Faint o’n hathrawon sy’n gorfod ymdopi gydag iaith anweddus a bygythiol oddi wrth ddisgyblion felly? I ba raddau mae’r ifanc yn cael eu dylanwadu wrth ddilyn gwefannau digidol sy’n annog trais, ac yn cymell pobl ifanc i fabwysiadu agweddau hiliol, neu yn porthi agwedd meddwl sy’n debygol o arwain at hunanladdiad? Byddai’n braf pe gallai eglwysi lleol anfon llythyron o gefnogaeth at yr ysgolion unigol, a threfnu clybiau lle bod llefydd addas i’r ifanc fynd yno a chael croeso cefnogol, bwyd a lle i gael cefnogaeth gyda’r gwaith cartref.

Ceir sawl trafodaeth sy’n cysylltu trais gydag ardaloedd difreintiedig a theuluoedd tlawd. Yn y maesdrefi tlotaf yn ein dinasoedd, bydd yr ifanc yn gwybod nad ydynt yn debygol o gael unrhyw fath o swyddi, a gorfod byw ar arian nawdd cymdeithasol. Nid yw hyn yn hybu hunan barch nac yn meithrin dangos parch at bobl eraill. Mae’n pobl ifanc yn gweld amharch mewn rhaglenni teledu, gydag iaith anweddus fel nodwedd normal. Gall tor-priodas neu aelwydydd sy’n chwalu, beri i’r ifanc sy’n ymdeimlo’n negyddol gyda’r ansefydlogrwydd hyn.

Heb os, bydd canran sylweddol o ddisgyblion ysgol yn dewis cydweithio gyda’r ddarpariaeth addysgiadol, ond mae’r cortynnau sy’n plethu pobl ynghyd mewn cymdeithas wâr a chyfrifol yn datod, ac mae hyn yn gyd-destun sy’n rhaid i’r enwadau a’r eglwysi gyfrannu i’r drafodaeth ac i chwilio am ddatrysiad. Mae cyfraniad pob gweithgaredd ieuenctid yn werthfawr, boed hynny gyda Mudiad yr Urdd, y Ffermwyr ifanc, Clybiau chwaraeon, digwyddiadau diwylliannol neu unrhyw weithgaredd arall, ac mae gan yr eglwysi eu cyfle a’u cyfrifoldeb i gynnig lle i’r ifanc i brofi ac i gyfrannu at warineb bro a byd.

*Denzil I. John*


## Cyflwyno Beiblau



Cyflwynwyd copi yr un o’r Beibl i bob plentyn ym mlwyddyn 5 yn Ysgol Gynraddd Gymraeg Y Dderwen, Caerfyrddin. Ariannir y Beiblau hyn yn flynyddol gan gasgliad a wneir yn Oedfaon Gwyl Dewi Undebol Capeli ac Eglwysi Cymraeg Caerfyrddin. Pleser gan Y Parchg Beti Wyn James, Cadeirydd y Pwyllgor oedd eu cyflwyno i’r plant.

# Llyfr y Pregethwr

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 16: Tynged pawb**

**Llyfr y Pregethwr 9:1–12**

Natur anchwiliadwy meddwl Duw a gaiff sylw'r awdur yn yr adnodau nesaf (9:1–3). Wedi ystyried y mater yn fanwl, daw i'r casgliad fod gweithredoedd y cyfiawn a'r doeth 'yn llaw Duw'. Yr ystyr debygol yw mai Duw, nid hwy eu hunain, sy'n penderfynu eu tynged. Ond gan ei bod yn amhosibl i neb ddarogan y dyfodol a deall meddwl Duw, nid oes modd gwybod 'prun ai cariad ai casineb sy'n ei aros'. 'Yr un peth sy'n digwydd i bawb', beth bynnag a wna yn ystod ei fywyd, fel y dangosir gan nifer o gyferbyniadau. Boed rhywun yn dda neu'n ddrwg, yn cymryd llw neu'n gwrthod gwneud hynny, tynged pawb yw marwolaeth.

Ac yntau wedi dod i gasgliad mor drist, byddai'n rhesymol tybio bod y Pregethwr yn barod i dderbyn iddo gael ei drechu yn ei ymdrech i wneud synnwyr o fywyd, a'i fod yn digalonni. Ond nid felly y mae. Er iddo daranu yn erbyn tynged y ddynoliaeth, gwêl lygedyn o oleuni i'r rhai 'a gyfrifir ymysg y byw'. Mynega ei gred drwy ddyfynnu dihareb: 'Y mae ci byw yn well na llew marw' (9:4). Yn y traddodiad Beiblaidd, anifail aflan yw'r ci, ac fe'i defnyddir i ddisgrifio un sy'n ddirmygus a ffiaidd (Diarhebion 26:11; 2 Pedr 2:22). Symbol o rym ac awdurdod Duw yw'r llew (gw. Hosea 5:14; 13:7–8). Ond er mai brenin yr anifeiliaid ydyw, ni fydd ei statws brenhinol o unrhyw fantais iddo pan fydd farw.

Neges yr awdur yw mai gwell, ar bob cyfrif, yw bywyd na marwolaeth. Serch hynny, yr unig fantais sydd gan y byw dros y meirw yw eu bod yn gwybod y byddant hwythau farw. Ond mae dweud nad 'yw'r meirw yn gwybod dim', a'u bod yn diflannu heb goffa amdanynt a heb wobr yn y byd a ddaw (9:6) yn gwbl annerbyniol gan rai o'i gyfoedion. Dywed awdur Doethineb Solomon: 'Y mae eneidiau'r cyfiawn yn llaw Duw ... am fod Duw wedi eu profi a'u cael yn deilwng ohono ef ei hun' (3:1–5; gw. hefyd Luc 16:23; 2 Corinthiaid 5:10).

**Calon lawen**

Hyd yn hyn, cynghorion fu sylwadau'r Pregethwr wrth gymeradwyo llawenydd. Ond yma, mae'n newid ei arddull ac yn *gorchymyn* mwynhad: 'Dos, bwyta dy fwyd mewn llawenydd, ac yf dy win â chalon lawen, oherwydd y mae Duw eisoes yn fodlon ar dy weithredoedd' (9:7). Gan fod pawb yn gwybod eu tynged, dylent brysuro'n ddi-oed i wneud yn fawr o bob pleser sydd gan fywyd i'w gynnig. Y cyfiawnhad dros y gorchymyn yw bod Duw eisoes, yn ei ras, wedi cymeradwyo hyn yn y gorffennol pell. Mae gan ddynoliaeth benrhyddid i fwynhau bywyd am mai dyna ewyllys Duw.

Dyletswydd y sawl sy'n ufuddhau i'r gorchymyn yw gwisgo gwyn a rhoi olew ar ei ben. Yn ogystal â bod o fudd i ymladd gwres yr haul mewn hinsawdd gynnes, roedd dillad gwyn yn gysylltiedig â chynnal gwledd i gadw gŵyl ac yn symbol o burdeb. Roedd y sawl a allai ei fforddio'n defnyddio olew i leddfu llid croen sych. Yn ogystal â lleddfu poen, roedd yn symbol o lawenydd, cyfeillgarwch, croeso ac esmwythâd. Mae'r Salmydd yn diolch i Dduw am eneinio'i ben ag olew ac yn cymharu bywyd y rhai sy'n byw'n gytûn ag 'olew gwerthfawr ar y pen' (Salm 23:5; 133:2; Luc 7:46).

Argymhelliad a geir yn y gorchmynion hyn i fanteisio ar bob agwedd o fywyd yn ei lawnder, ac i gael pleser drwy fod yn ddyfal ym mhob gorchwyl (9:9–10).

**Hap a damwain**

Yn null y doethion o ystyried pwnc yr oeddent eisoes wedi rhoi sylw iddo, yn y gobaith o gael goleuni pellach arno, mae'r Pregethwr 'unwaith eto' yn cnoi cil dros yr hyn a welodd 'dan yr haul' gan danseilio'r sicrwydd o lwyddiant y mae pobl yn glynu wrtho (9:11). Nod y cyflym yw ennill y ras; nod y milwr yw ennill y rhyfel; nod y deallus yw cael digon o gyflog i'w gynnal; nod y gwybodus, sy'n deall sut i drin yr awdurdodau, yw ennill eu ffafr. Ond nid oes sicrwydd y bydd yr un ohonynt yn llwyddo. Pam? Am mai 'damwain a hap' sy'n cael y gair olaf. Ar wahân i farwolaeth, yr unig beth arall sy'n sicr mewn bywyd yw ffawd (9:12).

**Be 'dych chi'n feddwl?**

1. Pa mor realistig yw *gorchymyn* y Pregethwr i bawb yn ddiwahân fwynhau bywyd am mai dyna ewyllys Duw?
2. Ydym ni'n euog o wneud Cristnogaeth yn ddiflas ac nid yn llawen?
3. Ai hap a damwain (lwc) sy'n rheoli'r hyn sy'n digwydd i ni?




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Dathliad Cenhadol Merched y Gogledd, Capel Bowydd Blaenau Ffestiniog 8fed o Fai 2025

Ar ddiwrnod braf o Wanwyn teithiodd nifer o Chwiorydd y Gogledd trwy hyfrydwch y wlad i gyd-addoli yn y Dathliad Cenhadol, a gynhaliwyd eleni yng Nghapel Bowydd, Blaenau Ffestiniog. Cafwyd yno groeso cynnes ac olion gwaith trefnu manwl. Llywyddwyd y cyfarfod gan Gwennie Roberts a Ceinwen Parry. Meinir Lloyd Jones oedd yn arwain y gân a Gwenfair Lloyd Hughes oedd yr organyddes. Cafwyd cyfnod o gyd-ganu emynau i'n cynorthwyo i dawelu cyn cychwyn y cyfarfod.

Croesawyd pawb i'r Dathliad gan Gwennie Roberts, gan hyderu y caem fendith o gyd-ddathlu gyda'n gilydd a chan ddiolch i bawb am yr holl ragbaratoi. Cyflwynwyd y rhannau dechreuol gan chwiorydd y Pwyllgor Lleol, gan gynnwys darlleniad o 2 Corinthiaid pennod 4. Yna daeth criw o blant Ysgol Maenofferen atom, yn lliwgar yn eu gwisgoedd coch. Cafwyd datganiadau hyfryd o ganeuon egnïol a swynol ganddynt. Cyflwynwyd Beibl i'r ysgol gan Meinir Lloyd Jones i ddiolch a chofio am yr achlysur, gan ddiolch hefyd i'r staff am eu hyfforddi. Bendithiwyd y casgliad gan Gwennie Roberts. Yna cyflwynodd Carys Davies, Cydlynydd Rhaglen Dorcas, y llyfr thema newydd am eleni efo'r neges bwerus 'Iesu yr Atgyfodiad a'r Bywyd'. Dyma addewid Iesu i ni, y gallwn fod yn sicr fod yr Arglwydd yn ein harwain hyd yn oed mewn amgylchiadau anodd. Mae'r llyfr thema ychydig yn fwy swmpus eleni a diolchodd Carys i bawb sydd wedi cyfrannu ato ac sy'n cynorthwyo i'w ddosbarthu'n eang. Cafodd pawb oedd yn y Dathliad gopi o'r llyfr thema ac hefyd gopi o lyfryn 'Gobaith', sydd wedi ei gyhoeddi gan fudiad o'r enw Newyddion Da.

Cyflwynodd Ceinwen Parry ein siaradwr gwadd am y prynhawn, ,sef, Joseff Edwards, un o arweinwyr Craig, Blaenau. Rhannodd iddo fis yn ôl gael y fraint o annerch 10,000 o Chwiorydd Mizoram yn Tenzo mewn pabell bambŵ, gan egluro ychydig iddyn nhw am ei fywyd a'i waith.

Seiliodd Joseff ei neges i ni heddiw ar 2 Corinthiaid pennod 4. Pwysleisiodd neges Paul yn y bennod yma, nad ydym i ddigalonni, ond yn hytrach ein gwaith ydy ymestyn gogoniant y drefn y mae'r Arglwydd wedi ei rhoi i ni. Mae gennym i gyd ran i'w chwarae yng nghenhadaeth yr Efengyl, yn llawn gwirionedd, llawn gwendid a llawn gobaith. Yn y cyd-destun yma rhannodd





Joseff eu bod fel teulu wedi symud i Flaenau Ffestiniog o Gaerdydd tair blynedd yn ôl gyda dwy o enethod bach, gan adael teulu, swyddi, ffrindiau ac eglwys. Roeddent yn argyhoeddedig fod Duw wedi rhoi gwaith yn eu gofal yn ardal y Blaenau.

Mae llawer o bobl yn ein cymunedau'n chwilio am atebion a llefydd saff i fynd efo'u problemau. Mae Duw yn rhoi'r gwaith yma yn ein gofal ni i gyd, dyma'r gwaith yr ydym i gyd i'w wneud. Eglurodd fod dwy rôl i'w cael pan mae'n dod i genhadaeth - i fynd i lefydd sydd yn sychedu am obaith yr efengyl, ac hefyd mae galwad am rai i ddal y rhaffau. Mae gan Dduw rôl ar ein cyfer ninnau, efallai y cawn ein galw i gyfrannu trwy weddi, i gyfrannu o'n harian neu o'n hamser, a dylem geisio ei ewyllys i ni. Mae Duw yn ein galw i fynd mewn gwendid, er mwyn dangos mai oddi wrth Dduw mae'r nerth yn dod. Cawn ein gwasgu a'n taro i lawr, ond nid ydym wedi ein llethu'n llwyr nac wedi anobeithio. Yn hytrach, rydym yn cael ein codi nol ar ein traed bob tro. Mae Duw hefyd yn ein hanfon allan gobaith. Fel Cristnogion, rydym yn byw yn y dyddiau olaf hyn rhwng yr Atgyfodiad cyntaf a'r Atgyfodiad olaf, ac yn y diwedd, ysgafn fydd unrhyw faich arnom yr ochr yma i'r bedd o'i gymharu â'r fendith a dderbyniwn yr ochr draw.

Diolchodd Ceinwen Parry i Joseff am ei neges i ni. Rhoddwyd adroddiad ariannol gan Drysorydd Chwiorydd y Gogledd, Margaret Jones a chroesawyd ni i Gapel y Rhos, Llandrillo yn Rhos ar gyfer Dathliad Cenhadol 2026 gan y Parch. Helen Wyn Jones o Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy. Diolchwyd i bawb a fu ynghlwm a threfniadau'r diwrnod gan Ceinwen Parry.

Yn dilyn y cyfarfod croesawyd pawb am luniaeth a sgwrs wrth y byrddau yn y festri. Diolch i bawb a fu ynghlwm â'r holl waith o bobi cacennau, gosod y byrddau, trefnu'r blodau, gweini a golchi llestri. Roedd cyfle yma hefyd i bori trwy'r adnoddau eang oedd ar gael ar stondin y Chwiorydd i'w cymryd a'u rhannu at ddefnydd personol ac yn ein heglwysi.

Ffilmiwyd y cyfarfod gan Gwyn Rhydderch ac mae bellach ar gael ar YouTube i bawb ei fwynhau https://www.youtube.com/watch?v=fBQDDAXbYyc

*Gwenith Jones*
*Ysgrifennydd Sasiwn Chwiorydd y Gogledd*

# "Nid yw efe yma, ond efe a gyfododd."(Luc 24 adnod 6)



Llun: Eiddwen Jones

Bore Sul y Pasg eleni 'roeddwn i a fy merch yn rhan o'r gynulleidfa oedd wedi ymgynull y tu allan i Eglwys hynafol Y Mwnt ger Aberteifi i ddathlu Atgyfodiad Crist dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Roeddym yn teimlo'n freintiedig o gael bod yn bresennol ar achlysur mor bwysig, a hithau ond saith o'r gloch y bore. Roedd yn hyfryd o braf. Y bore hwnnw roedd gwylio a mwynhau codiad yr haul yn brofiad ynddo'i hun, a chydag ystyr arbennig iddo o ystyried y newyddion da yr oeddem yn ei ddathlu. Nid yn unig yr oeddem ni'n ymwybodol o pam yr oeddem ni yno, ond hefyd o'r ffatih ein bod yn rhan o gadwyn fawr o gredinwyr ar hyn y canrifoedd a oedd wedi dathlu yn yr union fan a'r lle. Eistedd wrth giat yr Eglwys oeddem, yn gynulleidfa o oddeutu deugain. Roedd hyn yn syniad da oherwydd gallem werthfawrogi a mwynhau yr awyrgylch hyfryd dros Fae Ceredigion.

Cynhaliodd yr Offeiriad, Y Parch Wyn Maskell, wasanaeth yn y modd mwyaf llawen am y newyddion da am Atgyfodiad Crist. Cawsom ymuno yn y Cymun Sanctaidd, cyd weddio a chanu. Wedi'r oedfa cafwyd coffi poeth a chacennau i'n cynhesu, a chymdeithasu wrth gwrs.

Pam oeddym ni yno?

Yn gyntaf, i dderbyn a mwynhau neges yr efengyl a'r newyddion da am yr Atgyfodiad.

Yn ail, Mwynhau gogoniant natur a gwychder codiad haul ar dir sanctaidd.

"Roedd hwnna yn brofiad ysbrydol iawn," sibrydodd fy merch. Yn wir, roeddwn yn cytuno â hi. Yr hen ar newydd yn dod ynghyd.

Fe gymrais i y cyfle hefyd i fynd i mewn i'r hen Eglwys hynafol a myfyrio am y cannoedd ar hyd yr oesoedd oedd wedi mynychu yr hen adeilad i addoli.

Rhyw ddwy flynedd yn ôl, cefais y fraint o fynd efo fy nheulu i'r gwasanaeth noswyl y Nadolig yn y Mwnt. Fe deimlais yr un ysbrydoliaeth yr adeg honno hefyd.

Yng Nghymru heddiw trist yw gweld dwsinau o gapeli ac eglwysi ar gau. Mae hyn yn peri tristwch i lawer ohonom sy'n hŷn. Fodd bynnag, i mi yn bersonnol mae'n amser i bob enwadaeth ddod i ben. Nid lle 'da ni'n addoli sy'n bwysig ond pwy 'da ni'n addoli. Yn y byd cythryblus presennol, a thrwy nerth ac arweiniad yr Ysbryd Glân, dylem ddod at ein gilydd, plygu pen, addoli a gogoneddu y person a Atgyfododd. Mae'n bryd, pan ddaw dau neu dri at ei gilydd, i gydnabod realiti atgyfodiad a mawredd y Crist byw.


*Dr Eiddwen Jones, Abergele*

# Walter Brueggemann 1933-2025

Yr wythnos diwethaf, bu farw Walter Brueggemann yn 92 mlwydd oed. Brodor o Nebraska ydoedd, yn fab i weinidog o dras Almaenig. Ordeiniwyd yntau'n weinidog gyda'r UCC (United Church of Christ), enwad a ddaeth i fodolaeth ym 1957 wedi uniad eglwysi o'r traddodiadau Cynulleidfaol a Lutheraidd yn bennaf. Enwad radical ydyw sy'n rhoi pwyslais mawr ar gyfiawnder a thangnefedd. Daw'r pwysleisiau yma i amlygrwydd yng ngweithiau ysgrifenedig Brueggemann.

Fe'i penodwyd yn ddarlithydd ac yna'n Athro ym Mhrifysgol Columbia (y brifysgol y mae Trump am gael gwared ohoni). Fel ysgolhaig y gwnaeth ei gyfraniad mwyaf. Ei briod faes oedd yr Hen Destament, ac yn fuan fe ddaeth i gael ei gydnabod fel un o'r prif awdurdodau yn y maes hwnnw.

Y mae ei ddehongliad o'r Hen Destament yn flaengar a radical ac (i rywun fel fi) yn dalp o synnwyr cyffredin. Dadleua y dylid dehongli'r ysgrythurau yn eu cyswllt hanesyddol gan gydnabod




dylanwad diwylliannau a thraddodiadau eraill arnynt. O wneud hynny, y gwelir eu hunigrywiaeth. Y proffwydi a daniai ei ddychymyg yn bennaf, ac y mae ei bwyslais ar rym y 'dychymyg' yn enfawr, fel y dengys teitlau rhai o'i lyfrau: The *Prophetic Imagination* a *Hopeful Imagination*. Dadansodda'r ddwy ysgol ddiwinyddol o feddwl sydd yn achosi tensiynau mawr yn yr HD, sef y sefydliadol/ceidwadol a'r radical/proffwydol. Y proffwydi yw ei arwyr gyda'u dychymyg effro o fel y gallai pethau fod o'u cyplysu gydag ewyllys Duw, gwerthoedd sy'n gwrthweithio gwerthoedd (a ninnau) heddiw: materoliaeth, militariaeth ac imperialaeth. I'r ysgol honno o feddwl y perthynai Iesu o Nasareth.

Credaf ei bod yn dra phwysig ein bod yn astudio'i waith er mwyn ein helpu i ddeall yr HD yn well, yn enwedig o feddwl beth sy'n digwydd i Balesteina heddiw. Fel nifer ohonom, fe aeth Brueggemann ar y bererindod o fod yn gefnogwr brwd i Israel i fod yn wrthwynebydd cadarn i Seionistiaeth oherwydd yr ymdriniaeth o Gasa. Rhaid deall o'r newydd yr addewidion Beiblaidd, meddai.

Cymwynas fawr Brueggemann yw ein helpu i wneud hynny. Cyflwyna'r ysfa am gyfiawnder a heddwch fel sail eglur i waith y proffwydi ac Iesu, a'r ffordd i'w gwireddu yw Efengyl Duw.

*Guto Prys ap Gwynfor*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru